

Gwella Gofal Lliniarol Arbenigol yng Nghwm Taf Morgannwg



Pam mae hyn yn bwysig

- Mae pawb yn haeddu cael gofal gydag urddas a thosturi ar ddiwedd oes.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau bod gartref neu rywle cyfarwydd — nid yn yr ysbyty.
- Rydym am sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.



Beth yw pwrpas hyn?

- Rydym yn canolbwyntio ar ofal lliniarol arbenigol i oedolion yn unig.
- Rydym am wella sut a lle mae gofal arbenigol yn cael ei ddarparu.
- Mae hyn yn cynnwys gofal yn y cartref, yn yr ysbyty, ac mewn unedau arbenigol.



Meddyliwch am y darlun mawr

- Mae pobl yn byw'n hirach, yn aml gyda chyflyrau iechyd lluosog.
- Mae tua 35,000 o bobl yn marw yng Nghymru bob blwyddyn: mae'r rhan fwyaf dros 75 oed.
- Erbyn y 2040au, bydd angen gofal lliniarol ar dros 37,000 o bobl yng Nghymru bob blwyddyn.
- Mae poblogaeth CTM yn tyfu ac yn heneiddio, yn enwedig y rhai dros 85 oed.

Beth yw gofal lliniarol a gofal diwedd oes?

- **Mae gofal lliniarol** yn helpu pobl i fyw'n dda gyda salwch sy'n cyfyngu ar fywyd ac yn helpu i reoli poen a symptomau. Gellir ei roi ochr yn ochr â thriniaethau fel cemotherapi ac mae rhai pobl yn ei dderbyn am flynyddoedd.
- **Mae gofal diwedd** oes ar gyfer camau olaf bywyd, pan fydd rhywun yn debygol o farw o fewn 6–12 mis, er bod hyn yn anodd iawn i'w ragweld. Mae'n canolbwyntio ar gysur, urddas a dymuniadau personol.





Pwy sy'n darparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes?

- **Gofal Cyffredinol:** Mae'r rhan fwyaf o bobl yn derbyn y gofal hwn a roddir gan feddygon teulu, nyrsys, staff ysbytai, a thimau gofal cymdeithasol.
- **Gofal Arbenigol:** I rai pobl ag anghenion cymhleth iawn (e.e. poen difrifol, penderfyniadau moesegol) sy'n cael ei ddarparu gan dimau sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig.

Gwasanaethau arbenigol yn CTM

- Nid oes angen gofal lliniarol arbenigol ar bawb sy'n marw. Cefnogwyd 32% o bobl a fu farw yn CTM yn 2022 gan y tîm arbenigol.
- Mae CTM wedi'i rannu'n dri maes: Merthyr Tudful/Cynon, Rhondda Taf Elái, a Phen-y-bont ar Ogwr.
- Mae gan bob un uned arbenigol gydag wyth gwely. Roedd 9% o'r bobl a fu farw yn 2022 wedi bod yn glaf yn un o'r unedau hyn.
- Cefnogir y rhan fwyaf o gleifion drwy weithio ar y cyd rhwng timau cyffredinol ac arbenigol.

Heriau allweddol

- Mae llawer o bobl yn marw yn yr ysbyty - 56% o farwolaethau yn CTM yn 2023.
- Mae gan CTM yr ymweliadau brys uchaf yn ystod misoedd olaf bywyd yng Nghymru.
- Mae pobl mewn ardaloedd fwy tlawd yn llai tebygol o gael gofal arbenigol ac yn fwy tebygol o farw yn yr ysbyty.
- Mae gan CTM fwy o farwolaethau fesul poblogaeth na chyfartaledd Cymru.


Heriau ar gyfer CTM

Gweithlu

- Mae'n anodd iawn recriwtio meddygon arbenigol ar draws y DU gyfan, ond yn enwedig mewn ardaloedd fwy tlawd neu gefn gwlad.
- Mae'r tîm yn fach iawn ac yn cwmpasu ardal fawr.

Symud i'r gymuned

- Mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau cael gofal gartref
- Mae gan CTM fwy o welyau arbenigol nag ardaloedd eraill-ond mae'r rhan fwyaf o staff wedi'u lleoli mewn unedau.
- Gallai mwy o gymorth cymunedol leihau derbyniadau i'r ysbyty a gwella gofal.





Pethau y mae'n rhaid i ni eu hystyried

1. Gwrando ar beth y mae pobl ei eisiau.
2. Defnyddio adnoddau yn deg ar draws pob maes.
3. Lleihau anghydraddoldebau iechyd.
4. Dilyn safonau cenedlaethol.
5. Paratoi ar gyfer galw cynyddol.
6. Recriwtio a chadw staff medrus.
7. Gwneud gwasanaethau yn fforddiadwy yn y tymor hir.
8. Gwella cydlynu rhwng gofal cyffredinol ac arbenigol.



Ein Cynllun

- Cae'r uned ym Merthyr a Chynon a chadw'r unedau yn Y Bwthyn (Brenhinol Morgannwg) ac Y Bwthyn Newydd (Tywysoges Cymru).
- Defnyddio adnoddau i gefnogi Gofal Lliniarol Arbenigol mewn meysydd eraill:
 - 1) Cymuned: gan gynnwys Hosbis @Home
 - 2) Ysbytai Cymunedol: darparu gofal diwedd oes gyda chymorth gan SPC.
 - 3) Ysbytai Acíwt: datblygu mynediad cyflym i ofal diwedd oes ar gyfer rhyddhau adref a chynyddu cymorth i wardiau cyffredinol.



Adborth

- Cwblhewch arolwg ar-lein gan ddilyn y cod QR.
- Anfonwch unrhyw sylwadau at CTM.SPC_services@wales.nhs.uk
- Ymunwch â'r sgwrs drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y bwrdd iechyd.
- Dewch i'n sesiwn ymgysylltu galw heibio gyhoeddus, lle byddwch yn dysgu mwy am y cynigion ac yn gofyn unrhyw gwestiynau. Ewch i'n gwefan am fanylion.



Diolch

